

Beibl i Blant
yn cyflwyno

Addewid
Duw i
Abraham



Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Byron Unger; Lazarus

addaswyd gan: M. Maillot; Tammy S.


Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2014 Bible for Children, Inc.

Trwydded: mae gennych hawl i gopio
neu argraffu'r stori hon, ar yr amod
nad ydych yn ei gwerthu.





Amser maith ar ôl y
Dilyw, dechreuodd
pobl y ddaear wneud
cynlluniau.




"Fe adeiladwn ni
ddinas fawr gyda
thŵr uchel i gyrraedd
y nefoedd," medden
nhw.




"Gadewch i ni fyw
gyda'n gilydd am
byth." Roedd pawb
yn siarad yr un iaith.




Roedd Duw am i
bobl fyw ar hyd
a lled y byd a
greodd.




Felly dyma Fe'n
gwneud rhywbeth
arbennig.



Yn sydyn, dechreuodd
gwahanol grwpiau o
bobl siarad yn wahanol.



Rhoddodd Duw
ieithoedd newydd
iddyn nhw.



Aeth y bobl oedd yn siarad yr un
iaith i ffwrdd i fyw gyda'i gilydd.



Efallai bod nhw'n ofni pobl oedd yn siarad yn wahanol iddyn nhw.




Dyma sut wnaeth Duw i bobl fyw
mewn gwahanol wledydd.




Babel oedd enw'r ddinas y symudon
nhw allan ohoni - ystyr yr enw ydy
Dryswch.




Blynyddoedd yn ddiweddarach,
siaradodd Duw
gyda dyn o'r
enw Abram
mewn lle o'r
enw Ur y
Caldeaid.



"Dw i am i ti adael y wlad hon,"
gorchmynnodd
Duw. "Dos
i'r wlad rydw
i'n ei dangos
i ti."



Fe wnaeth Abram ufuddhau.
Arweiniodd Duw ef i wlad Canaan.
Aeth ei wraig Sarai a'i nai Lot
gydag e.



Yng ngwlad Canaan,
daeth Abram a Lot
yn gyfoethog.



Roedd ganddyn nhw lawer
iawn o wartheg. Doedd
dim digon o dir pori i'r
holl anifeiliaid.




Fe wnaeth gweithwyr
Lot gweryla gyda
gweithwyr Abram.



"Does dim angen helynt,"
meddai Abram. "Fe wnawn
ni wahanu. Lot, cei di'r
dewis cyntaf o dir."



Dewisodd Lot ddyffryn
mawr, ffrwythlon lle
roedd dinasoedd
a phentrefi.



Roedd yn edrych yn dda.
Ond roedd y dinasoedd
yn llefydd
drwg iawn.



Ar ôl i Lot adael,
siaradodd Duw eto
gydag Abram.



"Rydw i'n rhoi gwlad
Canaan i gyd i ti ac i
dy blant, a hynny am
byth."



Doedd dim plant gan
Abram a Sarai. Sut
allai Duw gadw'r
addewid fawr hon?





Daeth tri dyn oddi wrth Dduw
i weld Abram a Sarai.





"Fe gewch chi fabi cyn hir," medden
nhw. Dechreuodd Sarai chwerthin.
Doedd hi ddim yn credu neges Duw.





Roedd hi'n naw deg mlwydd oed.





Dywedodd
Duw wrth Abram ei fod yn mynd
i newid ei enw i Abraham ...





... (tad llawer iawn) a Sara fyddai enw Sarai ("tywysoges").






Dywedodd Duw
hefyd wrth
Abraham ei fod
am ddinistrio
dinasoedd drwg

Sodom a
Gomorra.





Roedd nai
Abraham, Lot
yn byw gyda'i
deulu yn
Sodom.



Pan glywodd
Lot am rybudd
Duw, roedd e'n
ei gredu, ond
gwrthododd
gwŷr ei
ferched
adael
Sodom.



Dyna drist!
Doedden
nhw ddim
yn credu
Gair Duw.



Dim ond Lot a'i
ddwy ferch
ddihangodd yn
ddiogel.



Syrthiodd tân a
brwmstan ar y
dinasoedd drwg.



Gwrthododd
gwraig Lot wrando
ar rybudd
Duw ac ...



... edrychodd
yn ôl wrth iddi
ddianc.



Cafodd ei
throi yn golofn
o halen.



Cadwodd yr
ARGLWYDD
ei addewid i
Abraham
a Sara.



Fe gawson
nhw blentyn
er eu bod
nhw'n
hen iawn,
yn union
fel roedd
Duw wedi
ei addo.



Roedden
nhw mor
hapus pan
gafodd
Isaac ei
eni!



Efallai
bod Abraham
hefyd yn cofio
bod Duw
wedi ...




... addo rhoi
gwlad Canaan
iddo ef a'i
ddisgynyddion
am byth.



Byddai Duw
yn cadw'r
addewid
hwnnw
hefyd.



Mae Duw
bob amser
yn cadw ei
addewidion.



Addewid Duw i Abraham

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Genesis 11 - 21

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."

Salm 119:130



Y Diwedd



Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.



Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrdd i mewn i'm bywyd.

Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16

